Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Ail adolygiad o Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Ebrill 2022

Swyddogaeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru - rôl statudol annibynnol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru - yw diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, gwneud safiad a siarad ar eu rhan er mwyn iddynt allu manteisio ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt a sicrhau bod y rhai sy'n agored i niwed neu sydd mewn perygl o niwed yn cael eu cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn.

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr Adolygiad Annibynnol o Oedran Pensiwn y Wladwriaeth – galwad am dystiolaeth.

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn chwarae rhan hollbwysig mewn darparu incwm ar ôl ymddeol i bobl hŷn yng Nghymru a phob rhan o'r DU, ac yn aml dyma'r unig fath o incwm y bydd y bobl hŷn fwyaf agored i niwed yn ei gael ar ôl ymddeol. Yng Nghymru, mae tlodi incwm cymharol ymysg pobl hŷn yn parhau i fod ar y lefel uchaf o holl wledydd eraill y DU[1]. Bydd rhai unigolion sydd ddim yn derbyn pensiwn llawn y wladwriaeth yn gymwys i hawlio Credyd Pensiwn ond fel rydyn ni'n ymwybodol dim ond dwy ran o dair o'r rhai sy'n gymwys sy'n mynd ymlaen i'w hawlio.

Mae'r Comisiynydd wedi galw'n gyson ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i wneud mwy i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu hannog a'u cefnogi i hawlio'r hyn y mae ganddyn nhw hawl iddo. Amcangyfrifir bod hyd at £214m o Gredyd Pensiwn heb gael ei hawlio yng Nghymru yn 2018/19.[2]

Gan fod y newidiadau presennol yn dal i fynd rhagddynt, gydag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn codi i 67 erbyn 2028 ac i 68 erbyn 2046, a gyda chynigion gan y llywodraeth flaenorol i gyflwyno'r cynnydd i 68 y 2039, sef saith mlynedd ynghynt, nid dyma'r amser i wneud rhagor o newidiadau. Mae angen sefydlogrwydd a chymryd stoc cyn ystyried unrhyw newidiadau pellach.

Disgwyliad oes a disgwyliad oes iach

Y rheswm dros gyflwyno'r newidiadau sydd eisoes yn mynd rhagddynt, yn ogystal â sefydlu'r broses adolygu chwe blynedd i ystyried newidiadau pellach i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, oedd y gwelliannau a ragwelwyd o ran disgwyliad oes a disgwyliad oes iach.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
George Jones, Arweinydd Gwasanaethau Cymunedol a Chynhwysiant
03442 640 670 // George.Jones@olderpeople.wales

Fodd bynnag, nid yw disgwyliad oes a disgwyliad oes iach wedi parhau i wella ar y cyfraddau a ragwelwyd yn flaenorol. Ers 2011 mae'r gwelliannau mewn disgwyliad oes yn y DU wedi arafu, ac i rai grwpiau o'r boblogaeth, maen nhw wedi mynd yn ôl[3].

Mae gwahaniaethau sylweddol o ran disgwyliad oes ar draws y DU a hyd yn oed mwy o wahaniaethau o ran disgwyliad oes iach. Er bod y blynyddoedd blaenorol wedi gweld gwelliannau mewn disgwyliad oes, ychydig iawn o welliant a welwyd yng Nghymru ers 2011[4]. Yn wir, mae holl wledydd y DU, a llawer o wledydd eraill ar draws Ewrop, wedi gweld y disgwyliad oes yn aros yr un fath ers troad y degawd.

Un o'r egwyddorion craidd eraill a nodwyd wrth sefydlu'r adolygiadau hyn yn Natganiad Hydref y Canghellor yn 2013 oedd y dylai Oedran Pensiwn y Wladwriaeth gynyddu gyda disgwyliad oes fel bod pobl yn treulio "hyd at draean" **ar gyfartaledd** o'u bywydau fel oedolion yn derbyn Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r TUC yn nodi'n gywir fod edrych ar gyfartaledd yn unig yn cuddio anghydraddoldebau dwfn o ran hirhoedledd.[5]

Mae'r TUC yn nodi bod bwlch cynyddol mewn disgwyliad oes rhwng y degraddau incwm cyfoethocach a'r degraddau incwm tlotach. Er bod dyn neu fenyw sy'n nesáu at oed ymddeol gydag incwm canolrifol yn gallu disgwyl treulio 30% a 32% o'u bywydau yn derbyn pensiwn y wladwriaeth, mae'r ffigur hwn yn gostwng i ddim ond 26% a 29% ar gyfer dyn neu fenyw sydd yn y degraddau incwm isaf. Heddiw, mae dyn ar incwm is yn nes at ddisgwyliad oes cyfartalog 1948 nag y mae at y cyfartaledd presennol.

Covid-19 a'r gweithle

Mae angen cymryd amser i bwyso a mesur ac ystyried effaith y pandemig ar y gweithlu, yn enwedig ar bobl hŷn a'u gallu i ymateb i ragor o heriau a newidiadau. Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ac anghymesur ar lawer o bobl hŷn a bydd rhai wedi gweld newidiadau sylweddol yn eu hamgylchiadau ariannol.

Er bod y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws yn golygu bod llawer o weithwyr hŷn wedi gallu cael eu rhoi ar ffyrlo am gyfnodau yn ystod y 24 mis diwethaf, pan ddaeth y cynllun i ben, fe wnaeth llawer ohonynt wynebu colli eu swyddi a diweithdra. Bydd rhai pobl hŷn sydd eisoes wedi colli eu swyddi o ganlyniad i'r pandemig wedi dechrau hawlio am y tro cyntaf erioed. Ym mis Ebrill 2021, roedd 17,832 o bobl dros 60 oed yn cael Credyd Cynhwysol yng Nghymru, cynnydd o fwy na 100% ar y ffigurau ym mis Mawrth 2020.[6] Mae angen cyfnod o sefydlogrwydd, yn enwedig o ran Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, er mwyn i'r bobl hŷn hynny allu gwella'n ariannol, ailymuno â'r gweithlu a chael eu cynlluniau ymddeol yn ôl ar y trywydd iawn.

Oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran

Mae llawer o waith i'w wneud cyn ystyried codi Oed Pensiwn y Wladwriaeth ymhellach. Os bydd disgwyl i bobl hŷn weithio'n hirach cyn bod yn gymwys i gael Pensiwn y Wladwriaeth, yna bydd angen cymryd camau i fynd i'r afael ag oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle.

Mae oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran yn creu rhwystrau yn y farchnad lafur ac yn y cyfleoedd i weithwyr hŷn aros mewn gwaith neu chwilio am swyddi newydd. Rhaid i ni fynd i'r afael ag oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu gweithio a datblygu mewn gweithleoedd sy'n gynhwysol o ran oedran, a dylai Llywodraeth y DU a phob cyflogwr gymryd camau pellach i roi mwy o gymorth i weithwyr hŷn.

Yn ôl yr OECD, oed yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros wahaniaethu sy'n gysylltiedig â gwaith ac mae'n rhwystr mawr i allu parhau i weithio'n hirach wrth i oedran pensiwn y wladwriaeth gynyddu.

Oed yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros wahaniaethu sy'n gysylltiedig â gwaith



Source: OECD (2020), Promoting Age-inclusive Workforces, Paris, OECD Publishing.

Casgliad

Gan na wnaeth y cynnydd disgwyliedig mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach ddigwydd a gan nad yw effeithiau'r pandemig Covid-19 wedi cael eu deall yn llawn eto, ni ddylai'r Adolygiad argymell unrhyw newidiadau pellach i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar hyn o bryd.

Mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar incwm a chyfleoedd cyflogaeth unigolion sy'n nesáu at Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ac mae llawer o weithwyr yn eu 50au a'u 60au yn

dal i ddioddef oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle, sy'n gallu cyfyngu ar eu cyfleoedd i barhau i weithio neu i ddod o hyd i waith newydd.

Dylai'r Adolygiad ystyried ymhellach argymell na ddylai'r cynnig i gynyddu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 68 yn 2046 gael ei ddwyn ymlaen i 2039 yng ngoleuni'r diffyg o ran y gwelliant mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach, a'r effaith y mae'r pandemig Covid-19 wedi'i chael ar iechyd a lles pobl.

---

[1] Llywodraeth Cymru. (2020*). Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2018 i Fawrth 2019.* Ar gael ar: https://llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2018-i-fawrth-2019

[2] Independent Age. (2020). *Pension Credit: a closer look.* Ar gael ar: https://www.independentage.org/pension-credit-a-closer-look

[3] https://www.health.org.uk/publications/reports/mortality-and-life-expectancy-trends-in-the-uk

[4] Disgwyliad oes a marwolaeth yng Nghymru https://phw.nhs.wales/news/life-expectancy-and-mortality-in-wales-report-published/

[5] TUC yn adrodd ar ymestyn bywydau gwaith Older workers report final.pdf (tuc.org.uk)

[6] Yr Adran Gwaith a Phensiynau. (2021). *Credyd Cynhwysol.* Ar gael ar: www.stat-xplore.dwp.gov.uk

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau. Mae'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn trwy ei thîm gwaith achos ac yn gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres unigryw o bwerau cyfreithiol i'w chefnogi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal i gyfrif pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran; atal cam-drin pobl hŷn; a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd am weld Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i Gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: ask@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com/cy/Home.aspx

Twitter: @comisiwnphcymru